# Nodyn Mynychu

Ar gyfer y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod y Mater: | C-015386-RWJ |
| Enw'r Mater: | Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru |
| Mynychwyd gan: | Lynn Ball |
| Yn: | Venue Cymru |
| Ar: | 24 Ebrill 2012 |
| Cofnodwyr ar: | 24 Ebrill 2012 |
| Pwnc: | Cyfarfod y Fforwm Pwyllgorau Safonau 23 Ebrill 2012 |

---

Crynodeb o'r Cyflwyniad gan OGCC

- Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2012, cyflwynwyd 412 o gwynion newydd yn erbyn aelodau etholedig i swyddfa OGCC. Roedd hyn yn gynnydd o 49% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- O'r cwynion a gyflwynwyd, cyfeiriwyd 19 i Banel Dyfarnu Cymru neu'r pwyllgor safonau lleol.

- Nid oedd unrhyw un o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan OGCC yn hynach na 12 mis oed.

- O'r cwynion a gyflwynwyd, dyma'r manylion:

  178 yn ymwneud â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol
  205 yn ymwneud â Chynghorwyr Tref a Chymuned
  28 yn ymwneud â'r parciau cenedlaethol (eu rôl cynllunio yn bennaf)
  1 yn ymwneud â'r Awdurdod Heddlu[1]
  Yn gwneud cyfanswm o 412 mewn blwyddyn

- Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â methiant i ddangos parch a chwrteisi er bod nifer sylweddol ohonynt yn honni diffyg gwrthrychedd a phriodoldeb ac yn cynrychioli 25% o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt.

- O'r 412 o gwynion a dderbyniwyd, ni ymchwiliwyd i 280 ohonynt.

- Er bod symudiad tuag at gyflwyno cwynion yn electronig, mae OGCC angen i achwynwyr lenwi a llofnodi ffurflen oherwydd maent angen cadarnhad y bydd yr achwynydd yn fodlon mynychu gwrandawiad er mwyn rhoi tystiolaeth os mai dyna yw canlyniad yr ymchwiliad.

- Mae OGCC yn disgwyl derbyn tystiolaeth i gefnogi honiadau o dorri'r Côd mewn achosion lle mae'n fater o air un person yn erbyn gair un arall. Yn aml iawn, honiadau rhwng aelodau ydynt. Oni bai fod tystiolaeth ar gael i gefnogi'r honiadau, nid ystyrir ymchwilio i gwynion o'r fath oherwydd nad oes unrhyw dystiolaeth fod y côd wedi cael ei dorri ac wrth gwrs, nid yw pob ymddygiad y mae unigolion yn ei gael

[1] Bydd yn cael eu diddymu ar ddiwedd y flwyddyn hon ac ni fydd y Côd Ymddygiad yn berthnasol mwyach i aelodau'r corff a fydd yn ei olynu.

yn annymunol yn gyfystyr â thorri'r Côd; yn arbennig felly, ni fyddai trafodaeth danbaid yn y siambr rhwng aelodau ynddi ei hun yn gyfystyr â thorri'r Côd.

- Os ystyrir bod tystiolaeth i ddangos fod y Côd efallai wedi cael ei dorri, yna'r elfen nesaf o'r prawf a ddefnyddir gan OGCC yw a fydd pwyllgor safonau lleol yn debygol o gosbi neu wahardd yr unigolyn ai peidio. Hyd yma, mae OGCC wedi seilio eu penderfyniadau ar eu profiad o'r hyn y mae pwyllgorau safonau yn gyffredinol wedi ei wneud mewn amgylchiadau tebyg o ran cosbi unigolion. Yn y gorffennol, nid ydynt wedi ymofyn barn pwyllgorau safonau ynghylch materion penodol ymlaen llaw.

- Cyfeiriodd OGCC at y broses newydd y mae wedi ei mabwysiadu'n ddiweddar (copi ynghlwm) sy'n golygu y bydd yn awr yn cysylltu gyda'r swyddog monitro lleol i sefydlu a ydyw'r pwyllgor safonau eisiau ystyried y mater ai peidio ac os ydyw, yna bydd yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Safonau. Achosion yn unig yw'r rhain y byddai OGCC fel arall wedi eu gwrthod ar sail arferion blaenorol y pwyllgor safonau. Mewn geiriau eraill, lle roedd tystiolaeth bod y côd wedi'i dorri ond lle roedd hi'n fwy tebygol na pheidio, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, na fyddai'r unigolion yn cael eu cosbi.

  Effaith net hyn yw bydd mwy o gwynion yn ôl pob tebyg yn cael eu cyfeirio yn awr i bwyllgorau safonau lleol.

- Mewn perthynas â rhan un prawf OGCC (a oes tystiolaeth i gefnogi y torrwyd côd), bydd 80% o'r penderfyniadau hynny yn cael eu gwneud ymhen 4 wythnos. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaed penderfyniad ar 82% o'r achosion.

- Pan mae OGCC yn penderfynu yn y lle cyntaf i gynnal ymchwiliad, dilynir proses rybuddio safonol sy'n cynnwys cael gwybodaeth gan y swyddog monitro lleol gan gynnwys ymrwymiad wedi ei lofnodi gan yr aelod ynghyd â manylion am unrhyw hyfforddiant a gynigwyd a hyfforddiant yr aethpwyd arno.

- Mae materion sy'n ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad yn cyfrif am oddeutu 20% o waith OGCC gyda'r gweddill yn ymwneud â materion gwasanaeth. Caiff yr holl adroddiadau eu cymeradwyo a'u llofnodi gan OGCC ei hun.

- Mae'r broses ymchwilio yn debyg i broses ymchwilio PACE gydag aelodau Gogledd Cymru yn gyffredinol yn defnyddio cynrychiolaeth gyfreithiol.

- Ar gychwyn y broses, mae ymchwilydd OGCC weithiau yn cymryd tystiolaeth ysgrifenedig yn uniongyrchol gan yr achwynydd/tystion ac yn casglu ynghyd yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys unrhyw beth perthnasol ar Facebook neu safleoedd blog ac ati.

- Bryd hynny, adolygir yr holl dystiolaeth a gall hyn arwain at roi'r gorau i ystyried ymateb bryd hynny os nad oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen.

- Os oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen, yna gofynnir i'r aelod y gwnaed y cwyn yn ei gylch gyflwyno sylwadau ar y dystiolaeth ac ateb unrhyw gwestiynau perthnasol. Bydd hyn fel arfer ar ffurf holiadur sy'n cael ei anfon i'r aelod i'w gwblhau.

- Wedi derbyn ymateb yr aelod, bydd yr OGCC yn paratoi adroddiad drafft. Mae hyn wedi newid yn ddiweddar i fod ar ffurf naratif, yn nodi ffeithiau y mae anghydfod yn eu cylch a dod i gasgliad ynghylch a yw'n debygol bod y Côd wedi cael ei dorri ai peidio sef tystiolaeth o dorri'r Côd ond mater i'r Pwyllgor Safonau lleol neu Panel Dyfarnu Cymru fydd gwneud penderfyniad terfynol.

- Ar ôl hynny, bydd yr adroddiad terfynol a'r cyfan o'r dystiolaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru. Mae nhw'n rhydd i benderfynu ar yr achosion o dorri'r Côd a nodwyd gan OGCC ond mae ganddynt y grym hefyd i benderfynu a oes unrhyw achosion ychwanegol neu wahanol hefyd o dorri'r Côd.

- Bryd hynny, gofynnir i'r aelod y gwnaed y cwyn yn ei erbyn beidio â chyhoeddi'r adroddiad er bod y papurau'n cael eu cyhoeddi wedi i'r gwrandawiad ddod i ben. Ar yr adeg hon, crynodeb yn unig yn hytrach na set gyflawn o bapurau fydd ar gael i'r achwynydd.

- Dylai ymwneud OGCC â'r Pwyllgorau Safonau ddilyn y gweithdrefnau arferol. Hynny yw, cynhelir y gwrandawiad yn gyhoeddus gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi bryd hynny neu ar ôl y gwrandawiad.

- Pan fydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal gerbron Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, bydd cwnsler neu Swyddog OGCC yn mynychu, gan ddibynnu pa un sy'n briodol. Fel arfer, bydd ar sail tebyg am debyg h.y. os bydd yr aelod y gwnaed cwyn yn ei gylch/chylch yn cael ei gynrychioli/chynrychioli gan gwnsler, yna bydd OGCC hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i gwnsler.

- Mae peth tystiolaeth, mewn un Cyngor yn benodol, bod cwynion weithiau'n cael eu defnyddio i bwrpas gwleidyddol.

- Yn dechnegol, rhaid i'r holl gwynion sy'n ymwneud â thorri'r Côd Ymddygiad fynd i OGCC. Fodd bynnag, hoffai OGCC weld cwynion ynghylch aelodau gan aelodau yn cael eu trin ar lefel leol ar ôl mis Mai 2012 oni bai bod yr honiadau'n ddifrifol iawn. Er enghraifft, ymgais i ddefnyddio'r broses gynllunio er budd personol. Ond o ran cwynion ynghylch diffyg parch a chwrteisi rhwng aelodau, byddai'n well delio gyda'r rhain yn lleol ac yn yr un modd yn gyffredinol ymhob Cyngor. Ar hyn o bryd, mae OGCC yn gweithio gyda ACSeS, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac LlC i sefydlu un weithdrefn datrys anghydfodau ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Ni fedrir ystyried canlyniad y broses leol ar gyfer datrys anghydfodau yn gyfreithiol fel achos o dorri'r Côd oherwydd byddai angen deddfwriaeth eilaidd i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd hynny'n cymryd gormod o amser ac o'r herwydd byddai'n well bwrw ymlaen a cheisio datrys y materion hyn drwy gael yr aelodau i ymddiheuro. Oni fedrir datrys yr anghydfodau'n lleol, ni fyddai hynny'n eu rhwystro rhag cael eu cyfeirio i OGCC ond oherwydd y byddant yn gwynion llai difrifol, mae'n debygol na fyddant yn cwrdd â'r prawf dau gam ar gyfer ymchwiliad beth bynnag.

- Yn y drefn ar gyfer datrys anghydfodau yn lleol, mae yna swyddogaeth i Bwyllgorau Safonau lleol. Mae gan rai Cynghorau weithdrefn datrys anghydfodau yn lleol. Mae'r rheini weithiau yn cynnwys y syniad y bydd arweinwyr grŵp yn delio gyda'r mater. Fodd bynnag, nid yw'r broses honno o angenrheidrwydd yn briodol ymhob cyngor ac weithiau, mae'r cwynion yn ymwneud ag arweinyddion grwpiau. Petai'r mater yn esblygu i fod yn un ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Safonau a gyfeiriwyd gan OGCC, yna mae gan yr aelod dan sylw yr hawl i ddisgwyl gwrandawiad diduedd felly,

os yw'r broses datrys anghydfodau lleol yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Safonau (ac mae'n debygol y bydd) yna bydd eu swyddogaeth nhw yn cynnwys llunio barn a allai greu rhagfarn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gwrandawiad os bydd yr un mater yn cael ei gyfeirio atynt wedyn gan OGCC. Y ffordd o gwmpas hyn fyddai sefydlu is-bwyllgorau o'r Pwyllgor Safonau i ddelio gyda gwrandawiadau sydd ddim yn cynnwys aelodau sydd eisoes wedi bod yn rhan o unrhyw broses leol i ddatrys anghydfodau.

- Er y gobeithir y gall trefn safonol ar gyfer datrys anghydfodau yn lleol fod yn ei lle ar ôl Mai 2012, tan hynny, cynghorir y cynghorau hynny sydd a'u protocolau eu hunain i barhau i'w defnyddio.

- Mae angen arbrofi gyda'r broses datrys anghydfodau yn lleol ar lefel Cyngor Sir yn y lle cyntaf cyn ystyried ei hymestyn i Gynghorau Tref a Chymuned.

- Mae yna bryder cyffredinol ynglŷn â'r defnydd anghymesur o gynrychiolaeth gyfreithiol yn arbennig mewn achosion lle cafwyd indemniadau heb gyfyngiadau. Mae OGCC wedi awgrymu cap o £10,000 ar indemniadau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi trafod hyn yn ddiweddar ac wedi awgrymu cap o £20,000. Mae OGCC yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei ddatrys yn y man ac y bydd cyngor yn cael ei gyhoeddi.

- Mae'n debygol y bydd y Côd Ymddygiad i Aelodau yn cael ei adolygu gan LIC ac y bydd hynny'n rhoddi sylw i rai o'r materion hyn ond nid yw hynny'n debygol o ddigwydd yn fuan.

- Mae canllawiau ar y Côd Ymddygiad eisoes yn bodoli ond byddant yn cael eu hailgyhoeddi yn yr ychydig wythnosau nesaf fel y gall fod mewn lle ar ôl yr etholiadau lleol.

- Ni fydd OGCC yn darparu copïau caled i'r Cynghorau ond bydd yn argymell cylchredeg dolen e-bost i aelodau Cyngor Sir ar aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

- Dyma'r tro cyntaf y bydd canllawiau ar wahân yn awr yn cael eu cyhoeddi i Gynghorau Tref a Chymuned yn hytrach na Chynghorau Sir. Bwriedir hyn i wneud pethau'n haws i aelodau.

- Bydd y canllawiau newydd hefyd yn cynnwys enghreifftiau i adlewyrchu cynseiliau a osodwyd gan Bwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru.

- Bydd y canllawiau newydd hefyd yn ei gwneud hi'n glir y bydd diffyg ymrwymiad i hyfforddiant yn cael effaith ar unrhyw gosb.

**Crynodeb**

Wrth grynhoi, dywedodd OGCC y bydd y newidiadau sydd yn yr arfaeth yn weithdrefn gyson ar gyfer datrys anghydfodau yn lleol ar draws Cymru i ddelio gydag anghydfodau ymysg aelodau sydd ddim o natur ddifrifol, y weithdrefn newydd ar gyfer cyfeiriadau gan OGCC i swyddogion monitro a'r cap a argymhellir ar indemniadau ynghyd â chanllawiau newydd ar y Côd.

24 Ebrill 2012.